

## **30. Paratoi delweddau i'w defnyddio yn y CMS**

30. Paratoi delweddau i'w defnyddio yn y CMS .....	1
Cyflwyniad .....	2
1. Dod o hyd i Ddelweddau.....	3
2. Newid maint a Thocio eich Delwedd .....	8
A. Defnyddio GIMP 2 .....	9
Tociwch y ddelwedd i'r cyfraneddau cywir.....	9
Newidiwch faint y ddelwedd i'r hyd a'r lled cywir .....	11
B. Defnyddio Adobe PhotoShop .....	13
Tociwch y ddelwedd i'r cyfraneddau cywir.....	13
Newidiwch faint y ddelwedd i'r hyd a'r lled cywir .....	15
3. Cadw'r ffeil i faint ffeil da er mwyn ei defnyddio yn y CMS .....	17
A. Defnyddio GIMP 2 .....	18
B. Defnyddio Adobe PhotoShop .....	21

## Cyflwyniad

Gan ddibynnu ar ble y byddwch chi'n defnyddio delweddau yn y CMS, efallai y bydd angen i chi eu paratoi cyn eu defnyddio.

Os ydych chi'n mewnosod delwedd i'r Cynnwys Cyffredinol, bydd angen i chi ei huwchlwytho i'r Llyfrgell Gyfryngau er mwyn i chi allu ei mewnosod i'ch cynnwys. Gallwch newid maint neu docio'r ddelwedd yn y Llyfrgell Gyfryngau drwy ddefnyddio'r offer o fewn y CMS. Gweler [Taflen Wybodaeth 7: Y Llyfrgell Gyfryngau](#) i gael rhagor o fanylion.

Mewn mathau eraill o gynnwys, efallai y bydd angen i chi uwchlwytho delwedd o'ch cyfrifiadur yn uniongyrchol i'r cynnwys. Yn yr achosion hyn, mae'n bwysig paratoi eich delwedd o flaen llaw oherwydd ni fydd modd i chi ddefnyddio'r offer o fewn y CMS i addasu'r ddelwedd. Bydd angen i'ch delwedd fod y maint cywir a bydd angen i faint i ffeil beidio â bod yn fwy na'r cyfyngiad ar gyfer y math o gynnwys yr ydych yn ei ddefnyddio.

### Cyfraneddau a Chyfyngiadau Maint Ffeil ar gyfer Mathau Gwahanol o Gynnwys

Math o Gynnwys	Cyfraneddau'r Ddelwedd	Cyfyngiad Maint y Llun
<b>Background image block (no text)</b>	336 x 388 px	50kb
<b>Background image block (no text) (topstory)</b>	1140 x 585 px	120kb
<b>Page Intro - Image or Video</b>	1140 x 585 px	200kb
<b>Image Menu Item (internal)</b>	336 x 388 px	50kb
<b>Image Menu Item (external)</b>	336 x 388 px	50kb
<b>News</b>	Hyd at 200px o led	1000kb
<b>News version 2</b>	Hyd at 1140 x 500 px	3000kb


## 1. Dod o hyd i Ddelweddau

Efallai y bydd gan eich adran ei chyflenwad ei hun o ddelweddau addas, ond os nad oes ganddynt, efallai yr hoffech ddefnyddio delweddau'r llyfrgell ganolog (llyfrgell ddelweddau Prifysgol Aberystwyth). Mae'r llyfrgell ddelweddau'n caniatáu i chi lawrlwytho mewn amrywiaeth o feintiau, rhai ohonynt wedi'u gosod i'r cyfraneddau penodol sy'n ofynnol yn y CMS.


**Sylwer:** Er bod y llyfrgell ddelweddau'n caniatáu i chi lawrlwytho delwedd yn y maint cywir ar gyfer y CMS, bydd angen i chi ei chadw eto er mwyn i faint y ffeil fod o dan y cyfyngiad a nodwyd ar gyfer y math o gynnwys. Gweler adran 3 i gael manylion.

**Os oes gennych ddelwedd yn barod, ewch i ran [2. Newid maint neu Docio eich Delwedd](#).**

1. Ewch i <https://photolibrary.aber.ac.uk/> yn eich porwr gwe.
2. Mewngofnodwch gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair PA arferol.
3. Ar ôl mewngofnodi, porwch neu chwiliwch i ddod o hyd i'r ddelwedd yr hoffech ei defnyddio.
4. Cliciwch ar y ddelwedd i'w dewis a gweld fersiwn fwy.



5. Cliciwch ar y botwm DOWNLOAD ar frig y sgrin ar yr ochr dde



6. Yn y gwymplen 'Please select your intended usage for this asset' dewiswch 'Website'

7. Ticiwch y blwch ticio 'I have read and accept the Terms and Conditions' (ar ôl darllen y Telerau ac Amodau sydd ar gael yma:

<https://photolibrary.aber.ac.uk/asset-bank/action/viewConditionsPopup>).


8. Os hoffech i'r ffeil gael ei he-bostio atoch yn hytrach na'i lawrlwytho, ticiwch y blwch 'Send this file in an email'.

9. Yn y gwymplen 'Intended Use' dewiswch y math priodol o ddelwedd:

- a. **University Web – Department Homepage Hero:** Bydd hyn yn lawrlwytho delwedd y maint cywir ar gyfer y delweddau mawr ar dudalennau arferol gwefan Prifysgol Aberystwyth. Mae hwn yn addas i'w ddefnyddio yn 'Background image block (no text) (topstory)' neu 'Page Intro - Image or Video'. (1140 x 585 px)
  - b. **University Web – Department Homepage Tile:** Bydd hyn yn lawrlwytho delwedd y maint cywir ar gyfer ei defnyddio mewn bloc teils/delweddau ar dudalennau arferol gwefan Prifysgol Aberystwyth. Mae hwn yn addas i'w ddefnyddio yn 'Background image block (no text)', 'Image Menu Item (internal)', neu 'Image Menu Item (external)'. (336 x 388 px)
  - c. **News Articles:** Bydd hyn yn lawrlwytho delwedd y maint cywir i'w defnyddio mewn erthygl newyddion. Mae hwn yn addas i'w ddefnyddio yn 'News Version 2'. (1140 x 500 px)
  - d. **University Web – Homepage Main Hero:** Bydd hyn yn lawrlwytho delwedd y maint cywir ar gyfer ei defnyddio ar dudalen gartref gwefan Prifysgol Aberystwyth (1440 x 690 px)
  - e. **University Web – Homepage Tile:** Bydd hyn yn lawrlwytho delwedd y maint cywir ar gyfer teils tudalennau cartref ar wefan Prifysgol Aberystwyth. (374 x 388 px)
  - f. **University Web – Homepage Event Tile:** Bydd hyn yn lawrlwytho delwedd y maint cywir ar gyfer teils digwyddiadau ar dudalennau cartref ar wefan Prifysgol Aberystwyth. (179 x 267 px)
  - g. **University Web - Course Hero:** Bydd hyn yn lawrlwytho delwedd y maint cywir ar gyfer y delweddau mawr ar dudalennau cyrsiau ar wefan Prifysgol Aberystwyth. (1140 x 500 px)
10. Ar gyfer lawrlwytho'r rhan fwyaf o bethau, gallwch ddewis yr ardal o'r ddelwedd i'w chynnwys wrth i'r system ei thocio i'r cyfraneddau cywir.


**Sylwer:** Os nad ydych yn gwneud hyn, bydd y system yn tocio ardal ganolog y ddelwedd, sy'n golygu y gallai rhannau pwysig o'ch delwedd gael eu tocio allan.

11. Cliciwch ar 'Select crop area...' o fewn y blwch tocio



12. Bydd naidlen yn dangos y ddelwedd yn ymddangos.

13. Cliciwch a llusgwch i greu siâp ar y ddelwedd



14. Gallwch addasu'r siâp trwy symud un o'r corneli neu glicio a llusgo'r siâp cyfan.
15. Pan fyddwch yn fodlon â'r tocio, cliciwch ar y botwm 'CROP & CLOSE' ar frig y dudalen yn y gornel dde.
16. Bydd manylion yr ardal yr ydych wedi dewis ei thocio yn cael eu dangos yn y blwch 'Crop'.
17. Os hoffech wirio sut mae'r rhagolwg yn edrych, cliciwch ar y botwm PREVIEW.
18. Pan fyddwch yn barod i orffen, cliciwch ar y botwm 'DOWNLOAD NOW' neu 'EMAIL NOW' a fydd yn cael eu dangos gan ddibynnu ar beth ddewiswyd yn flaenorol.

**Sylwer:** er eich bod wedi lawrlwytho delwedd sydd â'r maint picselel cywir ar gyfer ei defnyddio yn y CMS, bydd angen i chi ei chadw eto er mwyn i faint y ffeil fod o dan y cyfyngiad a nodwyd ar gyfer y math o gynnwys. Gweler [adran 3](#) i gael manylion.

## 2. Newid maint a Thocio eich Delwedd

Os ydych chi wedi lawrlwytho eich delwedd o Lyfrgell Ddelweddau PA yn y maint picstel cywir, ewch i [ran 3. Cadw'r ffeil i faint ffeil da er mwyn ei ddefnyddio yn y CMS.](#)

### **Nodiadau:**

Os nad ydych chi wedi gosod unrhyw feddalwedd golygu delweddau, bydd angen i chi lawrlwytho a gosod GIMP 2 gyntaf.

Dylech bob amser ddechrau gyda delwedd sy'n fwy na'r maint angenrheidiol. Peidiwch fyth â defnyddio delwedd sy'n llai nag sydd angen oherwydd bydd yn colli ansawdd wrth ei wneud yn fwy.

Darperir cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio [GIMP 2](#) ac [Adobe PhotoShop](#).



## A. Defnyddio GIMP 2


1. Agorwch GIMP 2 ar eich cyfrifiadur.
2. Agorwch y ddelwedd wreiddiol yr ydych yn gweithio arni.

### Tociwch y ddelwedd i'r cyfraneddau cywir


3. Yn y panel 'Toolbox', cliciwch ar 'Rectangle Select Tool'




4. Yn adran 'Tool Options' isaf y panel, ticiwch y blwch i'r chwith o 'Fixed Aspect ratio'.
5. Yn y blwch islaw, teipiwch y cyfraneddau yr ydych yn ceisio eu creu yn y fformat 1:1. E.e. os ydych chi'n creu delwedd i'w defnyddio mewn templed 'Page Intro - Image or Video' yn y CMS dylai fod yn 1140 x 585 px, felly teipiwch 1140:585



- Cliciwch ar y ddelwedd, tua lle'r hoffech i un o gorneli uchaf y tocio fod a llusgwch y petryal ar draws y sgrin nes ei fod yn llenwi'r rhan o'r ddelwedd yr hoffech ei defnyddio.



- Os oes arnoch angen addasu'r petryal, gallwch ei symud drwy glicio yn y canol a symud eich llygoden.
- Gallwch addasu'r maint trwy glicio mewn cornel a'i llusgo gyda'ch llygoden.
- Pan fyddwch yn fodlon â'r rhan o'r ddelwedd y mae'r petryal yn ei gorchuddio, cliciwch ar 'Image' yn newislen uchaf y brif ffenestr, a dewiswch 'Crop to selection' o'r ddewislen sy'n ymddangos




10. Mae eich delwedd bellach y siâp cywir ar gyfer ei defnyddio, ond efallai ei bod hi'n dal i fod yn rhy fawr.

### **Newidiwch faint y ddelwedd i'r hyd a'r lled cywir**

11. Cliciwch ar 'Image' yn newislen uchaf y brif ffenestr, a dewiswch 'Scale image' o'r ddewislen sy'n ymddangos

12. Golygwch y blwch 'Width' i ddangos y lled yr oeddech ei eisiau. E.e. os ydych chi'n creu delwedd i'w defnyddio mewn templed 'Page Intro - Image or Video' yn y CMS dylai fod yn 1140 x 585 px, felly teipiwch 1140 yn y blwch 'width'

13. Dylai'r uchder newid i gadw'r llun yn y cyfraneddau cywir.



14. Cliciwch ar y botwm 'Scale' i orffen newid maint y ddelwedd.


**Nodiadau:** Er bod gennych ddelwedd sydd â'r maint picseel cywir ar gyfer ei defnyddio yn y CMS, bydd angen i chi ei chadw eto er mwyn i faint y ffeil fod o dan y cyfyngiad a nodwyd ar gyfer y math o gynnwys. Gweler [adran 3](#) i gael manylion.

## B. Defnyddio Adobe PhotoShop

1. Agorwch Adobe PhotoShop ar eich cyfrifiadur.
2. Agorwch y ddelwedd wreiddiol yr ydych yn gweithio arni.

### Tociwch y ddelwedd i'r cyfraneddau cywir

3. Yn y panel 'Tools', cliciwch ar 'Rectangular Marquee Tool'




4. Ar draws brig y sgrin dylai'r dewisiadau ar gyfer yr offer hwn ymddangos. Cliciwch yn y gwymplen 'Style' a dewiswch 'Fixed Ratio'.
5. Yn y blychau i'r dde islaw, teipiwch yr hyd a'r lled yr ydych yn ceisio ei greu. Ni all y rhifau hyn fod yn uwch na 999, felly os ydych chi'n bwriadu creu maint gyda 4 ffigwr (e.e. 1140px) bydd angen i chi rannu eich rhif â 10. E.e. os ydych chi'n creu delwedd i'w defnyddio mewn templed 'Page Intro - Image or Video' yn y CMS dylai fod yn 1140 x 585 px - mae'r rhifau'n rhy fawr felly rhannwch y ddau â 10 i roi 114 x 58.5. Felly dylech deipio 114 yn y blwch 'Width' a 58.5 yn y blwch 'Height'.



6. Cliciwch ar y ddelwedd a llusgwch y petryal ar draws y sgrin nes ei fod yn gorchuddio'r rhan o'r ddelwedd yr hoffech ei defnyddio.



7. Os oes arnoch angen addasu'r petryal, gallwch ei symud drwy glicio yn y canol a symud eich llygoden.
8. Os yw'r maint yn anghywir, dechreuwch eto. Efallai yr hoffech wneud iddo ddefnyddio lled llawn y ddelwedd wreiddiol.
9. Pan fyddwch yn fodlon â'r rhan o'r ddelwedd y mae'r petryal yn ei gorchuddio, cliciwch ar 'Image' yn y brif ddewislen, a dewiswch 'Crop' o'r ddewislen sy'n ymddangos




10. Mae eich delwedd bellach y siâp cywir ar gyfer ei defnyddio, ond efallai ei bod hi'n dal i fod yn rhy fawr.

### **Newidiwch faint y ddelwedd i'r hyd a'r lled cywir**

11. Cliciwch ar 'Image' yn y brif ddewislen a dewiswch 'Image size' o'r ddewislen sy'n ymddangos

12. Golygwch y blwch 'Width' i ddangos y lled yr oeddech ei eisiau. E.e. os ydych chi'n creu delwedd i'w defnyddio mewn templed 'Page Intro - Image or Video' yn y CMS dylai fod yn 1140 x 585 px, felly teipiwch 1140 yn y blwch 'width'

13. Dylai'r uchder newid i gadw'r llun yn y cyfraneddau cywir.



14. Cliciwch ar y botwm 'OK' i orffen newid maint y ddelwedd.

**Sylwer:** Er bod gennych ddelwedd sydd â'r maint picsele cywir ar gyfer ei defnyddio yn y CMS, bydd angen i chi ei chadw eto er mwyn i faint y ffeil fod o dan y cyfyngiad a nodwyd ar gyfer y math o gynnwys. Gweler [adran 3](#) i gael manylion.



### 3. Cadw'r ffeil i faint ffeil da er mwyn ei defnyddio yn y CMS

Nawr bod gennych ddelwedd sydd â'r cyfraneddau cywir a'r maint picsele cywir, mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw'n rhy fawr o ran maint y ffeil i'w defnyddio yn y CMS.


**Nodiadau:** Os nad ydych wedi gosod unrhyw feddalwedd golygu delweddau, bydd angen i chi [lawrlwytho a gosod GIMP 2 gyntaf](#).

Mae gan fathau gwahanol o gynnwys gyfyngiadau gwahanol o ran maint ffeiliau felly dylech wirio beth yw'r cyfyngiad ar gyfer y math o gynnwys yr ydych yn ei ddefnyddio. Gweler y [tabl ar dudalen un](#) i gael y cyfyngiadau maint ffeil gwahanol ar gyfer y gwahanol fathau o gynnwys.

Darperir cyfarwyddiadau gan ddefnyddio [GIMP 2](#) ac [Adobe PhotoShop](#).

## A. Defnyddio GIMP 2


1. Agorwch y ffeil yn GIMP 2 (os nad yw eisoes ar agor).
2. Cliciwch ar 'File' yn newislen uchaf y brif ffenestr, a dewiswch 'Export as' o'r ddewislen sy'n ymddangos




3. Gwiriwch y blwch enw i weld ei fod yn dweud .jpg ar ôl enw'r ffeil. Os nad ydyw, cliciwch ar 'Select File Type (By Extension)' ar waelod y sgrin, a dewiswch 'JPEG image' o'r rhestr.



4. Newidiwch enw'r ffeil i wneud yn siŵr nad ydych chi'n ysgrifennu dros y ddelwedd wreiddiol
5. Cliciwch ar y botwm 'Export' i gadw'r ffeiliau.
6. Bydd y ffenestr 'Export Image as JPEG' yn ymddangos:




7. Addaswch y llithrydd 'Quality' i 60, i leihau maint y ffeil.
8. Gwiriwch faint y ffeil newydd a ddangosir mewn italig o dan y llithrydd 'quality'. E.e. ar gyfer delweddau a ddefnyddir yn y templed 'Page Intro - Image or Video', dylai'r maint fod yn llai na 120kB. Os yw'r maint yn rhy fawr, addaswch y llithrydd 'Quality' nes y byddwch chi'n cyrraedd maint addas.




9. Cliciwch ar y botwm 'Export' i orffen

## B. Defnyddio Adobe PhotoShop

1. Agorwch y ffeil Adobe PhotoShop (os nad yw eisoes ar agor).
2. Cliciwch ar 'File' yn y brif ddewislen a dewiswch 'Save for Web & Devices' o'r ddewislen sy'n ymddangos



3. Os nad yw eisoes wedi'i ddewis, dewiswch JPEG o'r gwymplen ar frig y sgrin ar yr ochr dde
4. Dewiswch 'High' o'r gwymplen o dan hwn



5. Ar y chwith ble dangosir rhagolwg o'r ddelwedd, dewiswch naill ai 'Optimized' neu '2-up' er mwyn i chi allu gweld sut fydd y ddelwedd yn edrych pan fydd wedi'i chadw ar yr ansawdd hwn. Gwiriwch y maint a ddangosir o dan y ddelwedd.
6. Ar gyfer delweddau a ddefnyddir yn y templed 'Page Intro - Image or Video', dylai'r maint fod yn llai na 120kB. Os yw'r maint yn rhy fawr, addaswch y gwerth yn y gwymplen 'Quality' nes y byddwch chi'n cyrraedd maint addas.
7. Cliciwch ar y botwm 'Save' i orffen.
8. Rhowch enw newydd i'r ffeil i wneud yn siŵr nad ydych chi'n ysgrifennu dros y ddelwedd wreiddiol (neu cadwch y ffeil mewn lleoliad newydd).